# Heddwch

NEWYDDION GWEITHREDU

cylchgrawn CND Cymru

Hydref 1994

25c


# Ymgyrchu – Y Diweddaraf

## Cymru Ymbelydrol


Derbyniodd CND Cymru doreth o sylw gan y wasg yn ystod y gwaith a wnaed i danlinellu perygl cynyddol ymbelydredd yng Nghymru. Diolch o galon i'n cyfeillion yn CND Trefdraeth, CND Abergwaun, Cyfeillion y Ddaear Ceredigion, Gillian a Tom Metcalf, Llanbedr Pont Steffan a Nan Morgan yng Ngogledd Cymru a helpodd i ddosbarthu taflenni a rhybuddio trigolion ac ymwelwyr o'r peryglon. Rhoddwyd cerdyn post anferth, wedi ei arwyddo gan fwy na 200 o ymwelwyr â'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Nedd, i John Redwood yn y Swyddfa Gymreig gan yr Is-Gadeirydd Ray Davies a chefnogwyr o dde Cymru, ar Fedi'r 22ain.

- Cynhyrchwyd taflen newydd, "Cymru – Gwlad Ymbelydredd". Os gellwch ddosbarthu rhai o'r rhain, neu os gwyddoch am siop neu lyfrgell allai eu cymryd, gall Jill Stallard ddanfon rhai atoch.
- Gan i Julian druan fynd yn wael yn sydyn, ni allwyd cynnal Taith Gerdded Môr Iwerddon Di-Niwclear. Diolch i bob un a gyfrannodd arian tuag at yr ymgyrch dros Fôr Iwerddon Di-Niwclear, a fydd yn parhau. Os hoffech gael eich arian yn ôl am na fu taith gerdded, cysylltwch â Jill Stallard cyn gynted ag y bo modd.

## Hedfan isel milwrol

Mae Hilary Lofmark yn ymchwilio i'r llygredd sŵn a gynhyrchir gan awyrennau milwrol yn hedfan yn isel, a'r cyfyngiadau ar eu defnydd. Mae hi'n byw yn Llanbed. Os oes gennych ryw wybodaeth, tystiolaeth neu sylwadau a allai helpu ei hymchwil, cysylltwch â hi d/o Pontfechan, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, Dyfed SA48 8DT.

Mae rhannau o'r canolbarth yn ddiweddar wedi dioddef presenoldeb deifiol hofrenyddion hedfan-isel ac awyrennau Harrier milwrol ar yr un pryd. Mae'n




debyg bod yr hofrenyddion yn dangos targedau i'r awyrennau. Mae'n gwneud i'r person ar y ddaear deimlo fel targed ei hun, neu'n dyst i ddamwain ar fin digwydd. Mae'r peth yn warthus.

## Trafodaethau Atal Lledaeniad Niwclear (TALI)

Gyda pharatoadau ar y gweill ar gyfer y trafodaethau a fydd yn cychwyn ym mis Ebrill 1995, mae'r ddadl yn poethi. Yn y trafodaethau paratoadol ym mis Medi galwodd Awstralia am wneud Penderfyniad Diogelwch y CU sydd yn gwahardd defnyddio neu fygwth defnyddio arfau niwclear yn orfodol ar bob gwladwriaeth.

Galwodd Cynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol am gyplysu estyniad cyfyngedig i'r Cytundeb â chamau tuag at gonfensiwn byd-eang i ddileu arfau niwclear yn gyfangwbl. (Ysywaeth, ni theimlai'r Gynhadledd y gallai gefnogi cael gwared o Trident fel cyfraniad tuag at atal-lledaenu.)

**HEDD-WEITHREDU**

*Am gopiau o Lasbrint CND ar gyfer Byd Heb Arfau Niwclear sydd yn cynnwys 12 cam allweddol tuag at ddiarfogi niwclear byd-eang, cysyllter â Jill Stallard, os g. yn dda.*

## I Sellafield – asid nitrig ymbelydrol – o'r UD

BNFL, os arwyddir y cytundeb, fydd yn derbyn 183,000 galwyn o asid nitrig wedi ei lygru ag wraniwm o Hanford, cyn-ffatri gynhyrchu arfau niwclear yn yr UD. Mae gan yr UD broblem gwastraff niwclear anferth, ac y maent yn awr am ddechrau ei gludo ar draws y byd i'w ddadlwytho ar Brydain. Dywed BNFL nad gwastraff mohono ond "deunydd diwydiannol i'w ailgylchu". Cludir unrhyw wastraff o'r UD ar fôr. Bydd dim ond ymdrin â'r gwastraff yn cynyddu'r ymbelydredd yn yr amgylchedd; does ond angen un ddamwain fel y Braer ym môr Iweryddd neu fôr Iwerddon, a fyddai byth modd glanhau ar ei hôl.

**HEDD-WEITHREDU**

*Ysgrifennwch i holi ynglŷn â hyn at eich AS, y PW, Ysgrifennydd yr Amgylchedd, eich Swyddog Cynllunio Argyfwng Sirol. Codwch stŵr.*

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw**


Produced by Pia 0222 222782. Printed by Fingerprints (TU) 0222 482582

## Trident

Mae HMS Vanguard wedi cyrraedd ar afon Clud yn cario 16 taflegryn Trident a lwythwyd yn yr Unol Daleithau. Roedd protest yno i'w chyfarch. Hwyliodd y bad heddwch can-mlwydd-oed, Puffin, wrth ochr y llong danfor yn hedfan hwyl CND Cristnogol.

Pan oedd Vanguard ar fin bwrw angor, rhuthrodd chwe pherson o Wersyll Heddwch Faslane drwy glwyd ogleddol Faslane. Canodd y larwm "bandit", caewyd yr holl glwydi, a bu'r gwersyll milwrol cyfan ar gau am fwy nag awr.

### HEDD-WEITHREDU

*Os carech gefnogi Gwersyll Heddwch Faslane, ffoniwch (0436) 820901.*

Mae canolfan anferth llongau tanfor Trident ar afon Clud wedi gorwario ei chyllideb o £800 miliwn, mwy na 70% yn fwy na'r amcangyfrif gwreiddiol. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cyhuddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn o adael i'r costau gynyddu allan o bob rheolaeth.

Mae adroddiad newydd ei gynhyrchu gan Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Amddiffyn yn cyfaddef bod Trident yn tramgwyddo Erthygl 6 o'r Cytundeb Atal Lledaeniad Niwclear, yr ymrwymodd Prydain drwyddo i gael gwared o'i harfau niwclear. Tra hawlia'r llywodraeth mae braw-atalydd lleiafsymol yw Trident, dywed yr adroddiad: "Mae cywirdeb a thechnoleg Trident yn cynrychioli – a bwriedid erioed iddo gynrychioli – cynnydd arwyddocaol yng ngallu niwclear y DU. Yr ydym wedi buddsoddi arian mawr i'w gwneud hi'n bosibl ymosod ar fwy o dargedau yn fwy effeithiol gyda'r un maint o bwer ffrwydrol mewn enw."

### HEDD-WEITHREDU

*Ysgrifennwch eto ar eich AS gan ofyn iddi/iddo beth yw diben Trident. Dyfynnwch eiriau'r Pwyllgor Dethol a holwch ynglŷn â methiant Prydain i ufuddhau i Erthygl 6 o'r Cytundeb. Os gellwch, danfonwch gopiau o'r ateb a dderbyniwch at Jill Stallard.*

## Trawsfynydd

Go dda, CADNO, CWNC, CND Cymru a phobl gogledd Cymru! Ym mis Awst cyhoeddwyd na fwriedid comisiynu'r llosgyddion arfaethedig i losgi gwastraff 'lefel-isel', ac y cludid y gwastraff ymbelydrol i orsaf niwclear Hinkley Point yng Ngwlad yr Haf i'w losgi yno. Mae Nuclear Electric wedi gwneud cais i'r Swyddfa Gymreig am gael cludo gwastraff ar hyd y ffyrdd. Disgwylir i'r broses gymeradwyo gymryd rhwng 6 a 12 mis. Mae gwaith ar ôl i'w wneud o hyd.

### HEDD-WEITHREDU

*Mae cludo gwastraff yn golygu hyd yn oed mwy o drin arno, a fydd yn creu hyd yn oed mwy o wastraff. Y mae cludo unrhyw ddeunydd ymbelydrol yn beryglus, ac y mae'n warthus y gwasgerir yr ymbelydredd hwn ar draws pobl ac amgylchedd Cymru, de Lloegr a Môr Hafren.*



## Hiroshima

Coffawyd Hiroshima a Nagasaki mewn amryw ffyrdd. Yn y 'Steddfod, cyfunodd Cymdeithas y Cymod ac CND Cymru i gofio pawb sydd wedi dioddef oherwydd rhyfel niwclear a'r paratoadau ar ei gyfer – o fwynwyr wraniwm a'u teuluoedd i'r rheini a ddioddefodd oherwydd creu safleoedd profion niwclear, gorsafoedd, a chladdu gwastraff.

Plannodd CND Llandrindod a Maer Llandrindod goeden.

Hwyliodd CND Trefdraeth ganhwyllau ar draws yr aber o'r bont haearn.

Cynhaliodd CND Ystradgynlais wasanaeth teimladwy dros ben yn y parc, a gosodwyd blodau ar y Gofeb Heddwch Siapaneaidd gyda'r neges "Boed Heddwch ar y Ddaear".

### HEDD-WEITHREDU

*Y flwyddyn nesaf fydd hanner can mlwyddiant gollwng bomiau niwclear ar Hiroshima a Nagasaki. Dechreuwch gynllunio eich digwyddiad yn awr, gan y bydd yn debyg o ddenu sylw'r cyfryngau.*




Os ydych yn byw yn ne Cymru, ysgrifennwch at eich papur lleol a dywedwch wrthynt beth sy'n digwydd. Dylid holi John Redwood ynglŷn â hyn, a dylid pwysleisio wrth y Swyddfa Gymreig nad yw pobl Cymru am i hyn ddigwydd. Credid ar un adeg, yn obeithiol, y byddai'r gwynt a'r dyfroedd yn gwasgaru'r ymbelydredd gwenwynllyd fel na allai'r un creadur unigol dderbyn dôs 'niweidiol'. Gwyddys bellach nad oes trothwy diogel ac y ceir yr un nifer o afiechydon a marwolaethau pa un ai y glastwreiddir y deunydd ai peidio. Y gwahaniaeth yw y lledaenir yr effeithiau dros boblogaeth eang gan ei gwneud hi'n fwy anodd olrhain y niwed i iechyd yn ôl at y llygrydd gwreiddiol.

## Dadgomisiynu Trawsfynydd

Cyflymwyd y broses o dynnu'r tanwydd o'r adweithyddion wedi i Nuclear Electric gael caniatad yr Arolygaeth Niwclear i gynyddu nifer y gwiail ym

mhob fflasg. Yn ystod y streiciau rheilffordd, nodwyd trenau â fflasgiau niwclear mewn seidin yn Llandudno, ac yn teithio drwy orsaf Caer. Yng nghyfarfod Cyngor Cydgysylltu'r Gymuned Leol ar 22 Medi cyhoeddodd Nuclear Electric mai ei ddewis ddull o ddadgomisiynu oedd y dull storio sych. Prin bod hynny'n syndod gan mai dyna'r dull a gymeradwywyd gan y llywodraeth. Gwyliwch y gofod yma.

## Gorsaf Ynni Niwclear yr Wylfa

Mae Nuclear Electric yn cael ei erlyn unwaith eto o dan y cyfreithiau Iechyd a Diogelwch ar ôl gadael i lygredd ddianc flwyddyn i fis Gorffennaf diwethaf. Yn yr achos llys cyntaf dirwywyd NE £34,000 ar ôl cyfaddef i gyhuddiadau a ddygwyd gan yr Arolygaeth Lygredd. Y mae a wnelo'r achos hwn, a ddygir gan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch, â methiant honedig offer a'r modd y gweithredir yr adweithydd.

Bu methiant arall eto yn yr offer llwytho tanwydd, wedi'r digwyddiad ym mis Mai yr adroddwyd arno yn y rhifyn blaenorol.

### HEDD-WEITHREDU

***Bydd pwyso ar eich AS, yn enwedig os ydych yn byw yn ngogledd Cymru, Glannau Mersi neu Iwerddon, yn helpu i osod y gwirionedd am ynni niwclear ar yr agenda, ar adeg pan mae'r diwydiant niwclear yn fregus iawn yn wyneb y fath ffeithiau. Bydd siarad am y digwyddiadau hyn, ysgrifennu llythyron i'r wasg ac at eich cynrychiolwyr etholedig yn helpu i gadw'r materion hyn yn llygad y cyhoedd.***

*"Cymer ddau berson i siarad y gwirionedd – y naill i siarad a'r llall i wrando."*
*(Henry David Thoreau).*

# Dysgais Bopeth roedd arnaf angen ei wybod yn yr Ysgol Feithrin

*gan Robert Fulgham, Kansas City Times*

Dysgais y rhan fwyaf o'r hyn yr oedd arnaf wir angen ei wybod am sut i fyw a beth i'w wneud a sut i fod yn yr ysgol feithrin. Cefais ddoethineb nid pan "gefais goleg gan fy nhad" ond yn y blwch tywod yn yr ysgol feithrin.

Dyma'r pethau a ddysgais. Rhannwch bopeth. Chwaraewch yn deg. Peidiwch â bwrw pobl. Rhowch bethau'n ôl lle daethoch o hyd iddynt. Cliriwch eich llanast eich hun. Peidiwch â mynd â phethau nad ydynt yn eiddo i chi. Dwedwch 'Mae'n ddrwg gen i" wedi i chi frifo rhywun. Golchwch eich dwylo cyn bwyta. Tynnwch y tsiaen. Mae bisgedi twym a llaeth oer yn dda i chi. Ceisiwch fyw bywyd cytbwys. Dysgwch dipyn a meddyliwch dipyn, a thynnwch luniau, a pheintiwch, a chanwch a dawnsiwch a gweithiwch dipyn bob dydd.

Mynnwch gyntun bob prynhawn. Pan ewch allan i'r byd, gwyliwch y ffordd, daliwch ddwylo, a cadwch gyda'ch gilydd. Byddwch yn ymwybodol o ryfeddod. Cofiwch yr hedyn bychan yn y cwpan plastig. Â'r gwreiddiau i lawr ac â'r planhigyn i fyny, ŵyr neb pam na sut, ond dyna sut yr ydym ni i gyd.

Pysgod aur a moch gini a llygod gwyn a hyd yn oed yr hedyn bychan yn y cwpan plastig . . . mi fyddant oll yn marw. A ninnau.

Ac yna cofiwch y llyfrau darllen, y geiriau cyntaf a ddysgwyd. Y gair mwyaf oll: EDRYCH. Mae popeth y mae angen i chi ei wybod yno rhywle. Y Rheol Euraid a chariad a charthffosiaeth sylfaenol. Ecoleg a gwleidyddiaeth a byw yn gall.

Meddyliwch gymaint gwell fyddai hyn o fyd pe bai pawb – yr holl fyd – yn cael bisgedi a llaeth tua 3.00 o'r gloch bob prynhawn ac yna'n gorwedd lawr â'n blancedi i gysgu am dro . . . neu pe bai gennym bolisi sylfaenol yn ein cenedl ni a chenhedloedd eraill i roi pethau yn ôl ble daethom o hyd iddynt bob amser, a chlirio ein llanast ein hunain. Ac mae'n dal yn wir, ni waeth beth a fo'ch oedran, pan ewch allan i'r byd ei bod hi'n well dal dwylo a chadw gyda'ch gilydd.

*Llawer o ddiolch i Gylchgrawn "Ploughshares" CND Cristnogol*

# Camelot yn mynd yn niwclear

Gyda sylw eang yn y wasg oherwydd presenoldeb Sean Connery a Richard Gere yn ein gwlad, mae ffilmio 'Camelot' yn Nhrawsfynydd wedi bod yn brofiad digon difyr. Dyma sut yr adroddodd y papur-newydd **Today** amdano:

". . . disgleiriai pwer Caledfwlch fel coelcerth y tu ôl i furiau uchel Camelot. Meindiwch chi, mae'r castell ffug a adeiladwyd ar gyfer y ffilm £40 miliwn *First Knight* yn pelydru â rhyw bwer rhyfedd hefyd. Ond y tro hwn, yr hen orsaf ynni niwclear yn Nhrawsfynydd, Gwynned [sic], Gogledd Cymru oedd hynny".

Fydd yr actorion yn fodlon cyffwrdd â Chaledfwlch wedi iddo fod yn y llyn? A ddylwedwyd y gwir wrthynt hwy, a'r criw ffilmio, am y gwaelodion? Cadwch lygad yn agored am y ffilm hwn, mae'n argoeli bod yn un cyffrous dros ben!

## Hydref yn Llandrindod

### Cyngor Medi CND Cymru

Gyda gwyliau'r haf ar ben, roedd gan ein Cyngor lawer o waith dal i fyny yn ei gyfarfod ar Fedi 17. Ydych chi'n cofio'r cynnig yna o'n Cynhadledd Flynyddol a argraffwyd yn 'Heddwch' yr haf? Ar ôl trafodaeth ddiddorol, cytunwyd i dderbyn fersiwn ddiwygiedig, yn cynnwys argymhelliad y dylai "CND Cymru barhau â'i ymgyrch i hysbysu'r cyhoedd o beryglon ynni niwclear i bobl ac i'r amgylchedd, ac mewn cyferbyniad, diogelwch dulliau eraill o gynhyrchu trydan, a gwerth cadwraeth ynni."

- Mae CND Cymru wedi gosod deunydd ger bron yr Arolwg Niwclear.
- Mae'r Trysorydd yn parhau i baratoi cofnodion aelodaeth ar gyfer cyfrifiadur Caerdydd, a gobeithid y byddai ein haelodau yn ei chynorthwyo yn ei chais am y wybodaeth angenrheidiol.
- Adroddwyd ar ddigwyddiadau'r gorffennol, trafodwyd problemau a materion yn codi, a chynlluniwyd ar gyfer y dyfodol.

Pam na ddewch chi i'r Cyngor nesaf? Gweler Dyddiadau Dyddiadur.



## Adolygiad

### All We are Saying . . .
### deg mlynedd o gerddi a phosteri am heddwch gan blant De Morgannwg

Byddai'r rhan fwyaf ohonom yn ystyried ein bod yn byw mewn cyfnod o heddwch, ac eto, byddai awdurdon y gyfrol hon yng anghytuno.


Sieryd plant De Morgannwg yn glir a di-flewyn ar dafod am eu gobeithion a'u hofnau am y dyfodol. Mae'r cerddi a'r lluniau yn y llyfr hwn yn galw am heddwch, yn mynnu cariad at ein gilydd a'r ddaear. Mae i lawer o'r geiriau dinc o anobaith; bron na fyddent yn croesawu "bom" a ddoi â heddwch terfynol i ddaear drafferthus a llygredig. Mae llawer o'r cerddi yn ddig; y cenhedlaethau i ddod fydd yn gorfod "dal y belen o drwbl" rydym ni wedi'i hyrddio.

Dros ddeng mlynedd o Wyliau Heddwch De Morgannwg, mae'r bobl ifanc wedi ymdrin yn graff â'r materion anodd a dwys hyn. Mae neges y llyfr yn glir – mae heddwch byd-eang a chyfiawnder amgylcheddol yn faterion rhy bwysig i'w gadael yn nwylo'r gwyddonwyr, y gwleidyddion, y diwydianwyr a'r bancwyr; dylai'r oedolion aros a gwrando ar y plant, ar y plentyn sydd ynom oll.

Go dda, Rwydwaith Heddwch De Morgannwg am gynhyrchu'r gyfrol liwgar, ysbrydoledig hon. Llongyfarchiadau ar ddeng mlynedd o Wyliau Heddwch. Brafo, Gyngor De Morgannwg am fod â'r ysbrydoliaeth a'r weledigaeth i helpu i gyllido a hyrwyddo'r Gwyliau Heddwch a dyfodol eu plant.

Yn awr, eich tro chi yw hi. Prynwch y gyfrol hon, da chi. Mae ar gael gan Y Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd, CF2 4RQ, tel. (0222) 489260 am £5.00

*Jill Stallard*




### Ymweld â Gogledd Iwerddon, Medi 1994

Nia Rhosier yw Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas y Cymod yng Nghymru. Eleni, dathlodd y mudiad ei dri-chwarter can mlwyddiant mewn cyfarfod yng Ngogledd Iwerddon.

"Corrymeela (Bryn Cynghanedd) yw pobl o bob oed a thraddodiad Cristnogol sydd, fel unigolion a gyda'i gilydd, wedi ymrwymo i wella'r rhaniadau cymdeithasol sy'n bod yng Ngogledd Iwerddon a thrwy'r holl fyd."

Dyna a ddywed y plac wrth y fynedfa i'r lle heddychlon hwn ar arfordir gogledd-ddwyrain Antrim lle cyfarfu 95 o aelodau pedair cangen y DU o Gymdeithas y Cymod ar benwythnos 9-11 Medi i ddathlu tri-chwarter can mlwyddiant sefydlu'r mudiad a rhannu syniadau, gobeithion a phryderon.

Dyna fraint oedd bod yng Ngogledd Iwerddon ar yr adeg hanesyddol hon! Yr oedd cyffro, arlliw o iwfforia hyd yn oed, yn ein cyfarchion wrth i ni gwrdd, a chael ein croesawu gan gyfeillion a chyd-aelodau yng nghangen Gogledd Iwerddon. Ond "ymlaen â'r busnes" oedd hi cyn hir wrth i ni eu holi'n ddwys ynglŷn â'u teimladau a'u barn ar gadoediad yr IRA. "Optimistiaeth bwyllog" oedd efallai'r ffordd orau o ddisgrifio'r awyrgylch ymhlith pabyddion a phrotestaniaid a oedd yn bresennol. Yr oeddem yn ymwybodol dros ben ein bod ymhlith pobl a fu'n gweithio dros heddwch a chymod ers blynyddoedd, rai ohonynt drwy gydol 25 mlynedd "y trafferthion". A oeddynt ar fin gweld gwireddu eu breuddwydion? Cytunai pawb bod angen ymddiriedaeth ac estyn allan mewn cariad at bawb oedd wrthi'n ceisio dod o hyd i ateb gwleidyddol, ond daeth blynyddoedd maith o siom o achos addewidion a dorwyd ac ofn trais gan yr unoliaethwyr i'r amlwg. Teimlem yn sicr, fodd bynnag, er gwaethaf unrhyw ofnau y byddai'r bobl ddewr hyn yn parhau â'u hymdrechion i greu heddwch, gan ddefnyddio eu holl gysylltiadau â'r rheini mewn grym a'u hadnoddau sylweddol eu hunain i adfer normalrwydd a gobaith yn y gymuned, a cherdded gyda'i gilydd tuag at ddyfodol mwy llewyrchus.

*Nia Rhosier*
*Cymdeithas y Cymod yng Nghymru (0938) 500631.*

## Y Cadoediad – Golwg o Belfast

Felly cyhoeddwyd terfyn llwyr ar drais gan un o'r pedwar prif grŵp parafilwrol yng Ngogledd Iwerddon. Ond pam mai dim ond ymhlith y rheini a gyhoeddodd gadoediad mae dathlu? Ai nhw sydd wedi ennill? A wnaed cytundeb cyfrin? Dyna'r cwestiynau sydd yn trwbli'r meddwl yn y cadoediad ysbeidiol yr ydym yn ei brofi yn awr, wedi ei fritho gan drais y tri grŵp parafilwrol arall, a ffrwydradau tân gwyllt gan blant yn y strydoedd wrth iddynt baratoi am Galan Gaeaf.

Mae pob trawsnewid o ryfel i wleidyddiaeth di-drais fel hyn – yn ansicr, yn anhrefnus ac â'r posibilrwydd o ail-gynnau a siom. Ond y mae'n teimlo fel pe bai hyn yn wawr cyfnod newydd; ychydig llai o dyndra ar y prif strydoedd efallai er bod digon ohono o hyd yn yr ardaloedd lle mae'r dryllau'n dal wrth law.

Amser yn unig a ddengys a yw'r cadoediad yn un cyffredinol a pharhaol. Ar hyn o bryd, y mae'n gyflawn i'r IRA yr unig. Rhaid i ni weddio y bydd yn dal ac y gwelir pawb yn rhoi eu harfau o'r neilltu. Fe gymer hynny amser.

Ac os digwydd, fel ddaw â phroblemau newydd yn ei sgîl. Sut mae trefnu'r heddwch? Beth mae'r cyn-garfannau parafilwrol a oedd unwaith yn rhan mor bwysig o'u byd treisgar yn mynd i'w wneud mewn cyfnod o heddwch? Lle caiff dicter a galar y miloedd a ddioddefodd gydnabyddiaeth a chyfiawnder?

Dyma ein Gethsemane ni, yma ym Melfast. Y cwbl y gallwn ei wneud yw gwylio a gweddio.

*Peter McLachlan, Cymdeithas y Cymod, Belfast. Medi 1994.*

- Os carech gysylltu â'r mudiad heddwch a chymod yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â Jill Stallard, os gwelwch yn dda.

# Yr Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau

## Yr Ymgyrch Fuddsoddi Glân

Mae awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd yng Nghymru yn buddsoddi cronfeydd pensiwn mewn cwmniau yn gysylltiedig â'r diwydiant milwrol. Mae'r Ymgyrch Fuddsoddi Glân yn mynd ati i gysylltu â'r awdurdodau hyn a gofyn iddynt ddefnyddio eu dylanwad fel cyfranddalwyr mewn cwmniau milwrol i drosglwyddo i gynhyrchu nwyddau sifil. Mae llawer sydd yn weithgar yn yr ymgyrch hon wedi bod yn pwyso ar eu hawdurdodau lleol i werthu eu cyfranddaliadau yn y diwydiant milwrol. Rhestrodd llythyr newyddion diweddar gan yr Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau yr awdurdodau iechyd a ganlyn fel rhai sydd â chyfranddaliadau yn GEC a/neu Lucas: Gorllewin Morgannwg, De Morgannwg a Morgannwg Ganol. Mae gan Gynghorau Sir Gorllewin Morgannwg a Dyfed gyfranddaliadau yn y dau gwmni hyn hefyd. GEC yw gwneuthurwr arfau mwyaf Prydain; mae Lucas yn cynhyrchu systemau ac offer ar gyfer cerbydau ymladd, arfau tywysedig, ac ati. Mae'r ddau gwmni hyn wrthi'n perffeithio'r grefft o beri niwed i unrhyw un, o 90 eiliad i 90 mlwydd oed, felly mae'n hynod eironig bod awdurdodau lleol a iechyd, sydd ill dau yn gofalu am bobl, yn ymwneud mewn unrhyw fodd â hwy a'u busnes ffiaidd.

***Hedd-Weithredu***

*Os ydych yn byw yn un o'r ardaloedd a restrir uchod, hysbyswch eich cynghorydd lleol o'r sefyllfa, gofynnwch iddi/iddo sut mae'n teimlo ynglŷn â'r peth, gofynnwch a wnaiff rywbeth ynglŷn â'r mater – ac yna rhowch wybod i Jill Stallard. Nid dyma'r holl stori – ond y cwbl mae lle iddo ar hyn o bryd. Mae'n bosibl bod cynghorau neu ymddiriedolaethau iechyd â chyfranddaliadau mewn diwydiannau milwrol erill, ond nad ydym wedi darganfod hynny eto. Gallech chi helpu yn hyn o beth – heb adael eich aelwyd eich hun. Os carech fwy o wybodaeth neu os hoffech chwarae mwy o ran yn yr ymgyrch hon, cysylltwch â Jill.*

## Ceiniogau dros Heddwch



"Pe casglai pob aelod 10c yr wythnos mewn pot jam am flwyddyn, gallem godi oedd ..." – dyna sut y dechreuodd yr holl beth. Yna, dyma ddanfon allan flwch bychan â 'Heddwch' arno, a ledled Cymru roedd aelodau wrthi'n torri a gludo, a byth er hynny, maent wedi bod yn hel y ceiniogau ... ac yn edrych ymlaen at roi cychwyn da i CND 1995. Felly, os oes unrhyw le ar ôl yn eich blwch, i mewn â'r ceiniogau yna, os gwelwch yn dda.

Ceiniogau a sieciau yn daladwy i "CND Cymru" at Y Trysorydd, CND Cymru, Y Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ.

**CYSWLLT** CND CYMRU

Y SIOP HEDDWCH, 56 MACKINTOSH PLACE, ROATH,

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL
**Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 OLR (05505) 260

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynigion o gymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda:**

GOGLEDD CYMRU
**Dave Andrews** (0978) 310491

DE CYMRU
**Ray Davies** (0222) 889514

CANOLBARTH
**Olwen Davies** (0970) 611994
**Ian Campbell** (0970) 871360
**Rod Stallard** (05505) 260

ADDYSG HEDDWCH
**Mary Jones** (0792) 774687

AELODAETH
**Carol Handcock** (0633) 881741

MUDIADAU CYSYLLTIEDIG
**Rhoda Jones** (0766) 762739

MASNACHU
**Jan Henderson** (0792) 830330

## Wedi symud tŷ. . .

Neu ni sydd â'r cyfeiriad anghywir ar eich cyfer? Helpwch ni i gadw'r cofnodion mwyaf cywir posibl, os gwelwch yn dda; danfonwch air at yr Ysgrifennydd Aelodaeth: Carol Handcock, 3 Millbrook Court, Magwyr, Gwent NP6 3JN. Os ydych yn derbyn hwn, a heb fod yn aelod, byddai'n dda ganddi glywed gennych hefyd.

## A oes gennych siwtiau gwlyb a/neu siwtiau sych nad oes arnoch eu heisiau bellach?

Mae ar Gweithredu Morol – y bobl hynny mewn cychod bychan yn hedfan baneri CND a welir bob amser yng nghwmni llongau tanfor Trident – angen siwtiau gwlyb a sych i'w defnyddio yn eu gwaith.

Fedrwch chi helpu? Cysyllter â Bob Sprocket, os g. yn dda (0237) 770330.

## Heddwch ar Lafar

Os gwyddoch chi am rywun a garai gael Heddwch mewn Braille neu ar ffurf Llyfr Llafar, cysylltwch â Jill Stallard (05505) 260, os gwelwch yn dda.

## Newyddion Gweithredu Heddwch

- Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch yn ymddangos ym mis Chwefror 1995
- Danfoner cyfraniadau at Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR (05505) 260
- Croesewir cyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (01 222 222782) am fanylion
- Y dyddiad cau ar gyfer copi yw 17 Ionawr 1995.
- Croesewir pob cymorth gyda'r gwaith golygyddol.

**Rwyf eisiau ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ______________________________

Cyfeiriad ______________________________

______________________________ Côd Post ________

Ffôn ______________________________ Amgaeaf siec/GP am ________

yn daladwy i CND Cymru. Cwpl £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3. Dychweler i CND Cymru, Aelodaeth, 3 Millbrook Court, Magwyr, Gwent NP6 3JN.



# PILI PALA

Dyna giwt! – i baratoi ar gyfer posibilrwydd preifateiddio, mae'n cyfeillion yn Nuclear Electric yn ystyried newid eu henw i Safeco! Mae pymtheg enw arall dan ystyriaeth ar gyfer y teitl "cyfeillgar a dynamig" yn cynnwys Britannia Electric, New Electric, British Energy, Genco a . . . credwch neu beidio . . . Envirogen. Nid yw'r un o'r pymtheg enw yn cyfeirio at natur ymbelydrol y dull cynhyrchu. A ydynt yn ceisio cuddio rhywbeth? Mi fentra'i y bydd gan ddarllenwyr Heddwch rai awgrymiadau gwirioneddol dda am beth i alw Nuclear Electric!

— ● —

Loes calon i Pili Pala oedd clywed bod Arlywydd Ynysoedd Marshall – ynysoedd a anrheithiwyd eisoes gan brofion niwclear yr UD o 1946 i 1962, wedi cynnig un o'r ynysoedd yn domen wastraff ryngwladol ar gyfer gwastraff niwclear a thaflegrau. Mae trigolion llawer o ynysoedd y Môr Tawel wedi brwydro ers blynyddoedd i fod yn ddi-niwclear ac eto, cred yr Arlywydd Amata Kabua y gallai'r arian a godid drwy ganiatau i eraill ddadlwytho'u gwastraff yno dalu am adfer ynysoedd ymbelydrol eraill. Mae llawer o'r ynyswyr eraill yn dioddef o gancr ac afiechydon eraill yn gysylltiedig ag ymbelydredd. Defnyddir un atol o hyd fel targed niwclear gan fyddin yr UD.

— ● —

Mae Lester Brown o Sefydliad Worldwatch yn Washington DC wedi nodi rhai o'r elfennau ollbwysig mewn creu cymdeithasau cynaladwy. Mae'r rhain yn cynnwys cyflenwad digonol o fwyd, gofal iechyd sylfaenol, cynllunio poblogaeth, cadwraeth y pridd ac ail-blannu coedwigoedd. Yn ôl Brown, byddai'r rhaglen yn costio rhyw $150 biliwn y flwyddyn am yr ugain mlynedd nesaf. Efallai yr ymddengys y ffigur yn un anferthol, ond dim ond rhyw chweched ran yw hyn o wariant y byd ar arfau.

— ● —

Gwenodd Duwies iaith pan ddewiswyd gorsaf Trawsfynydd fel y lleoliad ar gyfer ffilmio Chwedl Fawreddog Arthur. Ystyr y gair Ffrangeg "camelot" yw "sbwriel; gwastraff llwyr; nwyddau sal".

— ● —

Rhagor o newyddion da oddi wrth ein cyfeillion yn y mudiad Ploughshares yr ochr draw i Fôr Iwerydd. Mae'r Tad Carl Cabat yn ymgartrefu'n iawn yng ngharchar taleithiol Gogledd Dakota ar ôl cael ei ddedfrydu i bum mlynedd am fod mor haerllug â dwyn morthwyl a chalon i silo taflegrau niwclear Minuteman 3. Mentrodd Carl i mewn i silo "M-29" ar Ebrill 1af, sef dydd Gwener y Groglith eleni. Ac yntau'n gwisgo dillad clown, cariai gydag ef forthwyl, bara, sudd grawnwin a baner yn galw am roi terfyn ar y ras arfau. Am ddyn peryglus . . . (Os carech ysgrifennu at Carl, cysylltwch â Pili Pala, d/o Y Siop Heddwch, Caerdydd.)

— ● —

O bapur Sul . . .
Beth all £1 miliwn ei brynu?
**RWANDA**: 2,702 set o offer a all fwydo cyfanswm o 810,810 o bobl.
**LLEFYDD MEWN MEITHRINFA WLADOL**: 565 lle llawn-amser am flwyddyn.
**ADDYSG**: Grantiau i 254 o fyfyrwyr yn Llundain, neu 313 y tu allan i Lundain.
**IECHYD**: 40 trawsblaniad calon, 55 trawsblaniad aren, 250 clun newydd.
**CYFRAITH A THREFN**: 71 cwnstabl newydd.
**TAI**: Cost 12.5 o gartrefi teulu newydd.
Amcangyfrifwyd bod cost Trident yn £35 biliwn ... dychmygwch!

— ● —




## Masnachu CND Cymru


**Diolch, Jan a Brian, am yr oriau o wneud, pacio, labelu, llwytho a dadlwytho – a llawer o orchwylion eraill sydd yn rhan anhepgor o werthu dros heddwch. Maent wedi teithio milltiroedd lawer yn y flwyddyn ddiwethaf gan osod eu stondin cyn belled i ffwrdd â Bradford a Manceinion, gan ymweld â'r Urdd yn Nolgellau, y Genedlaethol yng Nghastell Nedd, Sioe Talybont, a llu o ffeiriau elusennol. Mae masnachu yn rhan hanfodol o'n gwaith ymgyrchu – nid yn unig drwy godi arian (er cymaint o angen hwnnw sydd) ond drwy helpu i gadw'r dadleuon yn fyw ym meddyliau pobl.**

**Gellwch chi eu helpu hwy drwy BRYNU DROS HEDDWCH y Nadolig yma. Danfonwch yn awr at Jan Henderson, 72 Heol Gwyn, Pontardawe SA8 3AN – cewch sticer car yn rhodd gyda'ch archeb.**

**Os gwyddoch am unrhywle y gellir mynd â'r stondin i werthu yn y dyfodol, rhowch wybod i Jan ar 0792 830330, os gwelwch yn dda.**

■ *Dengys y llun y stondin yn 'Steddfod eleni.*


## Y Siop Heddwch



56 Mackintosh Place,
Y Rhath,
Caerdydd CF2 4RQ.
Ffon: 01222 489260

Gennym ni mae'r stoc fwyaf yng Nghymru o nwyddau o –Traidcraft, Amnesty Rhyngwladol, Gwrth-Apartheid, Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear, CND, Earthcare, Unicef.
Mae gennym stoc helaeth o lyfrau a chylchgronau ynghyd â gemwaith o waith llaw a chrefftau ac, wrth gwrs, crysau-T a sticeri.





New Statesman & Society

Heddwch
the magazine of CND Cymru

# DYDDIADAU DYDDIADUR

## HYDREF 1994

**Byddwn yn hapus iawn i gynnwys unrhyw gyfraniadau oddi wrth fudiadau eraill yn gweithio dros heddwch a chyfiawnder amgylcheddol yng Nghymru.**

**Tachwedd 5 Sadwrn 11.00am** Cyfarfod Cynghrair Wrth-Niwclear Cymru, Neuadd Sir De Morgannwg, Glanfa Iwerydd, Caerdydd. Croeso i Bawb. *Cysyllter â CWNC (0982) 570362 neu (0443) 690419*

**Tachwedd 11-14** CAEWCH SELLAFIELD Eto! Gwersyll Heddwch cymysg a gweithredu. Cyfrinachau, progaganda a gwyro'r gwirionedd yw nodweddion y diwydiant niwclear – celir damweiniau, gwerir milynau ar gamhysbysu, dywedir celwydd am ymbelydredd sy'n dianc, gwadir unrhyw gysylltiadau â chancr, ac y mae'r marwolaethau a'r niwed yn parhau ... *Mwy o fanylion: (0706) 371387*

**Tachwedd 12 – Rhagfyr 7** Pedair Wythnos dros Ddwyrain Timor – gweithgareddau a drefnir gan y Glymblaid Brydeinig dros Ddwyrain Timor. Gellwch wneud rhai gweithgareddau, fel llythyru, gartref yng Nghymru – *cysyllter â Maggie (071) 252 7937.*

**Tachwedd 13** Sul y Cadoediad – gwisgwch eich pabi gwyn, ffordd o goffau'r gorffennol tra'n ymdynghedu i weithio dros ddyfodol heddychlon. Mae'r pabi gwyn yn arwydd o alar dros bawb sydd yn dioddef yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o achosion rhyfel – o newyn neu syched, ffoaduriaid a theuluoedd a amddifadwyd ar y ddwy ochr, y rheini sydd yn dlawd ac anghenus oherwydd y symiau anferth a werir ar arfau. *Pabiau gwyn ar gael gan Masnachu CND: (0792) 830330).*

**Tachwedd 14-20** Ffocws ITV ar "Arfau a Gwrthdaro". Bydd rhaglenni dogfen a newyddion drwy gydol yr wythnosa yn archwilio materion yn gysylltiedig â'r thema hon, yn cynnwys y fasnach arfau.

**Tachwedd 19 Sadwrn 11.00am** Cyngor CND Cymru – Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Llandrindod, Dyma gyfarfod deufisol CND Cymru y croesewir pob aelod a chynrychiolydd yn gynnes iawn iddo. *Am syniadau ar gludiant a manylion, cysyllter â Jill Stallard.*

**Tachwedd 25-27** Cynulliad Rhwydwaith Cefnogi Ploughshares – Gweithdai Rhydychen, trafodaeth ac ysbrydoliaeth i ddiarfogi. Darganfyddwch beth sydd yn ysbrydoli pobl i weithredu ac ymuno â'r mudiad hwn sydd yn prysur dyfu. *Codir tâl amrywiol (rhesymol iawn) – am fanylion pellach, cysyllter â Jill Stallard.*

**Rhagfyr 3 a 4** Cynhadledd Flynyddol CND Prydeinig, Undeb Prifysgol Llundain. *Mwy o wybodaeth: (071) 700 2352*

# CYSWLLT CND CYMRU

Y SIOP HEDDWCH,
56 MACKINTOSH PLACE, ROATH,

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL
**Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 OLR (05505) 260

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynigion o gymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda:**

GOGLEDD CYMRU
**Dave Andrews** (0978) 310491

DE CYMRU
**Ray Davies** (0222) 889514

CANOLBARTH
**Olwen Davies** (0970) 611994
**Ian Campbell** (0970) 871360
**Rod Stallard** (05505) 260

ADDYSG HEDDWCH
**Mary Jones** (0792) 774687

AELODAETH
**Carol Handcock** (0633) 881741

MUDIADAU CYSYLLTIEDIG
**Rhoda Jones** (0766) 762739

MASNACHU
**Jan Henderson** (0792) 830330